Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Crynodeb o'r **Cyfarfod**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y Cyfarfod:** | **Fforwm Mynediad Cenedlaethol (Cyfarfod 60)** | | |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 6 Mawrth 2018<br>10.30am – 1pm | **Lleoliad:** | Neuadd Reichel<br>Ffordd Ffriddoedd<br>Bangor LL57 2TR |
| **Presennol:** | Ruth Hall (Cyfoeth Naturiol Cymru, Cadeirydd), Carys Drew (Cyfoeth Naturiol Cymru), Quentin Grimley (Cyfoeth Naturiol Cymru), Mark Weston (Cymdeithas Ceffylau Prydain), Jo Hughes (Cymdeithas Ceffylau Prydain), Ray Wood (Cyngor Mynydda Prydain), Steve Rayner (Canŵ Cymru), Arthur Lee (y Cerddwyr Anabl), David Evans (Ymddiriedolaeth Cwm Elan), Bernard Griffiths (Undeb Ffermwyr Cymru), Andrew Stumpf (Glandŵr Cymru), Emily Lewis Stumpf (Glandŵr Cymru), Rebecca Brough (y Cerddwyr), Max Grant (Cymdeithas y Mannau Agored), John Watkins (Llywodraeth Cymru), Rowland Pittard (Cymdeithas yr Hostelau Ieuenctid), Sue Williams (Cyfoeth Naturiol Cymru), Steven Morgan (Chwaraeon Cymru), Russell Elliot (Cyfoeth Naturiol Cymru) | | |
| **Ymddiheuriadau:** | Stuart France (Cyngor Ogofa Cymru), Rachel Evans (y Gynghrair Cefn Gwlad), Jean Rosenfeld (YDCW), Kieron Foster (Beicio'r DU), Charles de Winton (Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad Cymru), Mark Stafford-Tolley (CLlLC, Gweithgor Rheolwyr Hawliau Tramwy Cymru), Gwyn Smith (Sustrans), Duncan Green (LARA), Ruth Rourke (y Sefydliad Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Rheoli Mynediad*), Kerry Thatcher – Croeso Cymru | | |

| **Rhif yr eitem:** | **Eitem** | **Cam gweithredu** |
|---|---|---|
| **1.** | **Croeso ac ymddiheuriadau**<br><br>Croesawodd Ruth bawb i'r cyfarfod, yn enwedig yr aelodau a'r siaradwyr newydd, Jo Hughes (Cymdeithas Ceffylau Prydain Cymru) a Steven Morgan, a oedd yn cynrychioli Chwaraeon Cymru. Tynnodd Carys sylw at y trefniadau cadw tŷ a'r ymddiheuriadau.<br><br>Hysbysodd Ruth y cyfarfod am nifer o newidiadau o ran cynrychiolwyr.<br>Dyma oedd cyfarfod olaf Andrew Stumpf a diolchodd Ruth iddo am ei gyfraniad at gyfarfodydd ac is-grwpiau'r fforwm dros sawl blwyddyn a dymunodd yn dda iddo yn ei ymddeoliad. Croesawodd Emily Lewis, a fyddai'n dod i gyfarfodydd yn y dyfodol ar ran Glandŵr Cymru. | |

Derbyniodd Carys neges ffôn gan Jean Rosenfeld yn ymddiheuro ac yn camu i lawr fel cynrychiolydd dros YDCW. Byddai Alexander-Fitzgerald, cadeirydd YDCW, yn dod i gyfarfodydd yn y dyfodol. Awgrymodd Ruth – a chytunwyd yn ei absenoldeb – iddi ysgrifennu at Jean ar ran y fforwm i ddiolch iddo am ei gyfraniad ardderchog dros y blynyddoedd fel cynrychiolydd YDCW a, chyn hyn, fel cynrychiolydd y Fforwm Mynediad Lleol Cenedlaethol.

Roedd Catrin Dellar wedi symud ymlaen o'i rôl flaenorol mewn mynediad a hamdden i adran wahanol yn Llywodraeth Cymru. Mae Catrin wedi cynrychioli Llywodraeth Cymru yng nghyfarfodydd y fforwm dros nifer o flynyddoedd a chytunwyd y byddai Ruth yn ysgrifennu at Catrin i ddymuno'n dda iddi yn ei rôl newydd a diolch iddi am gynnig ei mewnwelediad a chefnogaeth i'r fforwm.

Rhoddodd Carys y diweddaraf ar y camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf, yr oedd rhai ohonynt yn dal i fod ar waith.

***Cam Gweithredu 59.1:*** *Yr ysgrifenyddiaeth i gyfathrebu â Llywodraeth Cymru i wahodd Hannah Blythyn AC, Gweinidog yr Amgylchedd, i gyfarfod yn y dyfodol.* — CD / Llywodraeth Cymru

Roedd Carys yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch yr amser gorau i hyn fynd rhagddo.

***Cam Gweithredu 59.2:*** *Bydd Carys Drew yn llunio nodyn briffio, gan gynnwys amserlen genedlaethol a chysylltiadau lleol, ac yn rhannu'r cyflwyniad.* — CD

Roedd Carys wedi bod yn canolbwyntio ar ddatblygu ffordd Cyfoeth Naturiol Cymru o weithio yn y maes hwn a byddai'n symud ymlaen i ddarparu nodyn briffio a mynd i'r afael â'r wybodaeth bellach.

***Cam Gweithredu 59.3:*** *Bydd Stuart France yn cyflwyno eitem ynglŷn ag ogofa yn y cyfarfod nesaf.* — SF

Roedd Stuart wedi cael ei wahodd i roi cyflwyniad yn y cyfarfod, ond byddai'n well ganddo ohirio'r cyflwyniad am y tro.

---

## 2. Arolwg Cenedlaethol Cymru

Canfyddiadau adran hamdden awyr agored Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016 – 2017, Sue Williams (Cyfoeth Naturiol Cymru)

***Gweler y sleidiau cyflwyniad sydd ynghlwm***

Rhoddodd Sue Williams gyflwyniad am y canlyniadau cryno a gyhoeddwyd yn ddiweddar o adran hamdden Arolwg Cenedlaethol Cymru. Roedd bwletin o'r canlyniadau wedi cael ei ddosbarthu i aelodau ymlaen llaw ac roedd ar gael ar-lein.

Dechreuodd Sue drwy nodi bod Arolwg Cenedlaethol Cymru wedi disodli Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru, ond nid oedd modd cymharu'r canlyniadau; byddai arolygon yn y dyfodol yn caniatáu i dueddiadau gael eu nodi.

Mae'r arolwg yn darparu gwybodaeth am gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored gan bobl sy'n byw yng Nghymru, y gweithgareddau maent yn eu gwneud a'r lleoedd maent yn ymweld â hwy, yr hyn sy'n eu hysgogi, a beth yw'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag ymgymryd â gweithgareddau. Mae rhagor o gwestiynau'n darparu mwy o wybodaeth am fanteision iechyd ac economaidd hamdden awyr agored.

Ymdriniwyd â dadansoddiad parhaus y data arolwg cenedlaethol a sut mae'r data hwnnw'n cael ei ddefnyddio mewn prosiectau ymchwil, ynghyd â throsolwg o'r cwestiynau newydd a fydd yn cael eu gofyn yn rownd 2018/19 yr arolwg. Gofynnodd Sue i aelodau Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru sut efallai y byddant yn defnyddio canlyniadau'r arolwg yn eu gwaith eu hunain a pha ddadansoddiad ychwanegol fyddai'n ddefnyddiol. Os oes gan unrhyw un gwestiynau neu awgrymiadau, gallant drosglwyddo'r rhain i Carys.

| | |
|---|---|
| ***60.1 Carys i ddosbarthu'r cyflwyniad a'r bwletin*** | CD |
| ***60.2 Aelodau i drosglwyddo unrhyw gwestiynau ynghylch y data ac unrhyw awgrymiadau o ran dadansoddiadau pellach i Carys*** | Pawb |

**Pwyntiau trafod**

- Mae gan 'hamdden' yn yr arolwg ddiffiniad eang ac mae'n cynnwys hamdden awyr agored anffurfiol yn ogystal â pheth gorgyffwrdd posib gyda chwaraeon a theithio llesol oherwydd canfyddiadau pobl fod gan eu gweithgaredd ddiben deuol.
- Mae'r arolwg yn rhoi darlun o dwristiaeth yng Nghymru ond nid y tu hwnt i Gymru. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n gweithio'n agos gyda Natural England ac mae arolwg cyfwerth yn Lloegr, ond oherwydd methodoleg wahanol, nid oes modd cymharu'r canlyniadau. Mae Arolwg Twristiaeth y DU ac Arolwg Ymweliadau Dydd Prydain Fawr yn casglu rhagor o wybodaeth am dwristiaeth.
- Dim ond gwahaniaethau sy'n ystadegol bwysig sy'n cael eu cofnodi yn adroddiadau'r arolwg. Er bod rhai canrannau ar gyfer gweithgareddau'n ymddangos yn isel (e.e. 3%), maent yn dal i fod yn bwysig oherwydd eu bod yn cynrychioli'r gyfran honno o'r boblogaeth o oedolion yng Nghymru.
- Mae'r canlyniadau'n nodi bod llawer o ymweliadau'n dod dan y penawdau hamdden anffurfiol/cymdeithasol, e.e. picnics ac ymweliadau â pharciau, sy'n arwain at gwestiwn ynghylch sut mae diddordeb o'r fath yn cael ei gynrychioli ac, ar gyfer

Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru, sut rydym yn creu darlun o 'lais' cyfunol hamdden gymdeithasol.
- Mae'r canlyniadau ar gael yn y tablau data yn y syllwr canlyniadau.

## 3. Ymgynghoriad ar y Weledigaeth Ddrafft ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru

Sut rydym yn mwyafu'r defnydd o adnoddau naturiol? Steven Morgan, Chwaraeon Cymru

Esboniodd Steven Morgan fod Chwaraeon Cymru'n ymgysylltu â phobl a sefydliadau i gydlynu a datblygu gweledigaeth a rennir ar gyfer chwaraeon yng Nghymru. Mae hyn yn dilyn y datganiad gan y Gweinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd Cyhoeddus ar 3 Hydref 2017. Roedd Chwaraeon Cymru wedi cynnal digwyddiadau ac wedi gwneud arolwg ar ffurf holiadur i alluogi pobl i fynegi'r 'hyn roedd chwaraeon yn ei olygu iddynt' drwy wefan Chwaraeon a Fi – Y Sgwrs i lywio datblygiad y weledigaeth.

Esboniodd Steven mai'r weledigaeth fyddai i'r sector ac y byddai Chwaraeon Cymru wedyn yn datblygu ei gynllun strategol ei hunan. Arweiniodd y drafodaeth drwy rannu rhai themâu allweddol a oedd wedi codi o'r ‘sgwrs’. Y bwriad oedd osgoi diffinio chwaraeon ond ei ystyried yn ei gyd-destun ehangaf ac ystyried rôl chwaraeon wrth gael mwy o bobl i fod yn weithgar a chynyddu cyfran y boblogaeth sy'n gorfforol weithgar. Yr her oedd sut i fynd i'r afael â diffyg cyfranogiad wrth gefnogi athletwyr elitaidd ar yr un pryd.

Gwahoddodd Steven drafodaeth ynghylch y datganiad 'Cymru – cenedl lle mae pawb yn mwynhau chwaraeon trwy gydol eu hoes' a nododd y byddai'n mynd â'r pwyntiau a wnaed yn ôl i'w bwydo i’r weledigaeth ddrafft, a fyddai'n cael ei dosbarthu er ymgynghoriad yn fuan.

**Pwyntiau trafod:**

- Terminoleg a diffiniadau: nodwyd ei bod hi'n bwysig deall y canlyniadau a geisiwyd o'r weledigaeth ar gyfer chwaraeon a diffinio terminoleg yn briodol. Os cael mwy o bobl yn weithgar yw'r canlyniad a ddymunir, roedd aelodau’n ystyried ei bod yn bwysig cynnwys gweithgareddau hamdden a chorfforol ehangach yn y derminoleg a ddefnyddir.
- Roedd aelodau’n teimlo y dylai chwaraeon gael eu diffinio yn y weledigaeth fel y gellir deall y cwmpas ac fel ei bod yn glir pa sefydliadau sydd angen eu cynnwys a phwy yw'r 'sector'.
- Mae angen cynorthwyo pobl i wneud pethau mewn modd anffurfiol.
- Nodwyd bod costau'n gysylltiedig â darparu cyfleusterau ar gyfer hamdden awyr agored a 'champfeydd gwyrdd'.

- Mae chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn ddau beth gwahanol a gellid gwneud anghymwynas â chwaraeon petai'n cael eu gwanhau'n ormodol.
- Meddwl am osod lefel o uchelgais i unigolion ynghylch yr hyn sy'n bosib ei gyflawni mewn ffordd briodol a sensitif.
- Ni ellir cyflawni'r weledigaeth ddrafft gan Chwaraeon Cymru ar ei ben ei hunan. Byddai mwy o gyfleoedd i fwydo i'r ymgynghoriadau o 19 Mawrth.

Pawb

**Cam Gweithredu 60.3: Pawb i ystyried yr ymgynghoriad ar weledigaeth i chwaraeon yng Nghymru**

***Nodyn ôl-gyfarfod:  Mae'r ymgynghoriad bellach ar gael ar-lein*** yma***. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion yw 30 Ebrill 2018.***

## 4. Y Cerddwyr

Cam nesaf gwaith ar y pecyn cymorth i gynghorau cymuned a datblygu rhaglen Dewch i Gerdded Cymru, Taith Gerdded Fawr Cymru a gwyliau ledled Prydain Fawr, a diweddariadau a datblygiadau eraill, Rebecca Brough

Rhoddodd Rebecca Brough y diweddaraf i'r cyfarfod am newidiadau o fewn y Cerddwyr. Roedd newid mewn diwylliant a gwaith moderneiddio wedi digwydd, ac roedd partneriaethau newydd yn cael eu ffurfio, megis ariannu drwy Loteri Cod Post y Bobl. Aeth ymlaen i rannu gwybodaeth am feysydd gwaith penodol.

- Roedd pecyn cymorth wedi cael ei ddatblygu i helpu gwirfoddolwyr cynnal a chadw'r Cerddwyr i weithio gyda chynghorau tref a chymuned.  Mae hyn yn cael ei dreialu ym Mhowys gyda'r Trallwng a chyngor cymuned gwledig.
- Prosiect Chwaraeon Cymru oedd 'Dewch i Gerdded' sydd bellach yn cael ei gynnal gan y Cerddwyr. Yn dilyn y cyfnod ariannu'n dod i ben ym mis Medi, roedd gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu model cynaliadwy er mwyn i'r cynllun barhau.  Hyd yn hyn, menywod dros 50 oed yn bennaf sy'n cymryd rhan yn y cynllun.  Ceir ochr gymdeithasol i'r cynllun, sy'n mynd i'r afael ag unigrwydd ac unigedd.  Mae'r cydlynwyr yn lleol ac yn gweithio gyda'i gilydd fel rhwydwaith.
- Roedd y Cerddwyr wedi datblygu rhaglen hyfforddiant, a fyddai ar gael i'r rhai nad ydynt yn aelodau, ac mae modd cadw lle arni drwy Eventbrite.
- Byddai Taith Gerdded Fawr Cymru'n cael ei chynnal ar 2 Mehefin 2018. Unwaith eto, roedd yn cael ei chynnal ym Mhontarfynach, Ceredigion, yn dilyn llwyddiant y llynedd, lle cafwyd oddeutu 280 o gyfranogwyr.  Y thema ar gyfer taith eleni yw 'trysorau cudd'.  Esboniodd Rebecca fod adborth yn dangos bod y digwyddiadau hyn yn gadael etifeddiaeth, gyda gwelliannau'n cael eu gwneud i seilwaith cyn cynnal y digwyddiadau.

- Mae Cymdeithas y Cerddwyr yn arwain prosiect o’r enw 'Don't Lose Your Way', sydd â’r nod o gydlynu ymdrechion gwirfoddolwyr i gofnodi hawliau tramwy heb eu cofnodi cyn dyddiad cau 2026 a gyflwynwyd gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.
- Mae gwaith yn mynd rhagddo gydag Ymddiriedolaeth y Cambrian Way, sy'n rhannol ariannu swyddog. Mae'r gwaith yn cynnwys gwirio llwybrau, adfywio deunyddiau hyrwyddo a chreu cyfeirbwyntiau.
- Mae Rebecca'n ymwneud â'r holl feysydd polisi yng Nghymru ac yn rhan o’r Bwrdd Teithio Llesol.

**Cam Gweithredu: 60.4: Rebecca i anfon y ddogfen hyfforddiant ar ffurf PDF a Carys i'w dosbarthu** RB/CD

**Trafodaeth**

- Gwnaed sawl pwynt am y cyfle i archwilio unrhyw orgyffwrdd mewn diddordeb gyda’r Bwrdd Teithio Llesol, gyda rhai aelodau Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru'n cael eu cynrychioli arno, a chwestiwn am sut orau i wneud hyn.

## 5. Datganiadau ardal: gosod sail dystiolaeth a throsi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru'n gamau gweithredu

Russell Elliot, Cyfoeth Naturiol Cymru

***Gweler y sleidiau cyflwyniad sydd ynghlwm***

Rhoddodd Russell y diweddaraf ar roi Deddf yr Amgylchedd 2016 ar waith. Nododd y cyd-destun polisi ar gyfer datganiadau ardal, y cam nesaf yn y broses o’i chyflwyno, sy'n dilyn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (sy'n cael ei gyflwyno bob pum mlynedd gan Cyfoeth Naturiol Cymru) a'r Polisi Adnoddau Naturiol (sy'n cael ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru). Rhannodd map yn dangos lleoliad y saith datganiad ardal yng Nghymru. Caiff y rhain eu llunio gan Cyfoeth Naturiol Cymru a bydd angen iddynt wneud y canlynol:

1. Nodi'r adnoddau naturiol yn yr ardal
2. Y manteision maent yn eu darparu
3. Y blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd am reolaeth gynaliadwy

Dangosodd Russell sut bydd datganiadau ardal yn mynd i'r afael â'r elfennau hyn a chanolbwyntiodd ar sut mae hamdden awyr agored yn cydweddu â'r rhain a'r dystiolaeth yr ystyrir i ddatblygu proffiliau ardal. Daeth i ben drwy roi bras amserlen ar gyfer datblygu datganiadau ardal ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol.

**Trafodaeth**

- Nodwyd bod y blaenoriaethau'n cael eu gosod ar lefel genedlaethol gan Lywodraeth Cymru.

- Yn hytrach na dyblygu gwaith, nodwyd y byddai Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru'n cyflawni rôl y datganiad ardal morol.

| | |
|---|---|
| **Cam gweithredu 60.5:** Gall aelodau fwydo syniadau'n ôl trwy Carys. Carys i drosglwyddo manylion Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru i'r gwaith o fapio rhanddeiliaid. | Pawb/CD |

## 6. Cyfraniadau gan bawb

***Gweler cyfraniadau Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru, 6 Mawrth 2018. Gwnaed y pwyntiau canlynol hefyd:***

**Cyfoeth Naturiol Cymru:** Dywedodd Ruth Hall fod gan Cyfoeth Naturiol Cymru brif weithredwr newydd, sef Clare Pillman. Bydd Ruth yn adrodd i gyfarfod nesaf Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch y fforwm.

**Canŵ Cymru:** Nodwyd y diffyg fforymau i drafod materion mewn perthynas â gweithgareddau hamdden dŵr.

**Sefydliad Twristiaeth Gweithgareddau Cymru:** Roedd arian gan Croeso Cymru'n dod i ben.

**Parciau cenedlaethol Cymru:**
- Yn ddiweddar, roedd Parc Cenedlaethol Eryri wedi llunio canllaw ar gyfer digwyddiadau cystadleuol.
- Mae parciau cenedlaethol Cymru'n wynebu toriadau ariannol sylweddol yn eu setliadau gan Lywodraeth Cymru. Ceir pryder ynghylch yr effaith ar gyllidebau mynediad a cholli staff ac y bydd hyn yn effeithio ar berthnasoedd ar lawr gwlad.
- Roedd Fforymau Mynediad Lleol wedi ysgrifennu at yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a'r Gweinidog i leisio'u pryderon.

**Llywodraeth Cymru:**
- Gan ymateb i'r diweddariad gan y parciau cenedlaethol, rhoddodd Llywodraeth Cymru'r toriadau hyn yng nghyd-destun mesurau cyni ehangach, gan nodi bod tebygrwydd â setliadau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn Lloegr. Er nad yw'n ddelfrydol, roedd Llywodraeth Cymru wedi sicrhau arianu ychwanegol yn y flwyddyn er mwyn i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ymateb i bwysau. Nodwyd hefyd fod Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn gwneud y penderfyniadau ynghylch sut maent yn gwario'u cyllideb graidd a bod Fforymau Mynediad Lleol yn iawn i godi materion gyda'r awdurdod.

- Y camau nesaf mewn perthynas â'r ymgynghoriad ar 'Fwrw Ymlaen â Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy' yw cyflwyno crynodeb o'r ymateb i'r ymgynghoriad. Byddai hwn yn cael ei gyhoeddi ar gyfer yr ymgynghoriad cyfan. Yn dilyn hyn, bydd Llywodraeth Cymru'n nodi ei ymateb ar wahân ar gyfer pob adran. Nid yw'r amserlen ar gyfer cyflwyno'r camau hyn wedi'i nodi eto.

## 7. Unrhyw faterion eraill

Nodwyd bod ymgynghoriadau presennol efallai yr hoffai aelodau ymateb iddynt:

Y Cynllun Morol Cenedlaethol Drafft – dyddiad cau 29 Mawrth 2018
https://beta.gov.wales/draft-welsh-national-marine-plan

Polisi Cynllunio Cymru – dyddiad cau 18 Mai 2018
https://beta.gov.wales/planning-policy-wales-edition-10

Gwahoddwyd aelodau i ystyried eitemau i'w cynnwys ar agendâu yn y dyfodol a throsglwyddo'r rhain i Carys.

## 8. Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf

- Gwahoddwyd aelodau i ystyried eitemau i'w cynnwys ar agendâu yn y dyfodol ac i drosglwyddo'r rhain i Carys.
- 3 Gorffennaf 2018 – Y Trallwng – I'w gadarnhau
- 6 Tachwedd 2018 – Caerdydd – I'w gadarnhau